**Rhif:** WG52140

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o ymatebion

# Cynigion ar gyfer dull o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion i gefnogi dysgu a gwelliant a'r Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16

Crynodeb i Bobl Ifanc

Medi 2025

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-437-7

## Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad rhwng 10 Ionawr a 14 Mawrth 2025 i gasglu safbwyntiau ar eu polisi ar y defnydd o ddata ysgolion a data sydd eisoes yn cael ei gasglu a'i brosesu'n gyfreithlon. Gofynnodd hefyd am adborth ar gynigion bod gwybodaeth benodol ar gael am ddysgu 14 i 16 mewn ysgolion. Mae'r adroddiad hwn wedi ei lunio i grynhoi ymatebion i'r ymgynghoriad mewn ffordd sy'n rhwydd ei ddarllen i bobl ifanc.

## Gweithredu anghenrheidiol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Mwy o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

Am fwy o wybodaeth:
Cangen Polisi Gwybodaeth Ysgolion a Dysgwyr
Is-adran Safonau, Gwelliant a Gwybodaeth
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: ims@gov.wales

@WG_Education

Facebook/EducationWales

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o holl ddogfennaeth yr ymgynghoriad mewn ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen i ddogfennaeth yr ymgynghoriad:
Data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant: ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y system ysgolion

Data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant: ar gyfer y cyhoedd

## Crynodeb

Yng ngwanwyn 2025, gofynnodd Llywodraeth Cymru am farn pobl ar sut mae ysgolion yn defnyddio data sydd eisoes yn cael ei gasglu'n gyfreithlon. Roedd yr ymgynghoriad yn esbonio hefyd pa fath o wybodaeth mae disgwyl i ysgolion ei rannu. Roedd cyfanswm o 53 o ymatebion. Daeth 34 ohonynt drwy'r ffurflen ymgynghori swyddogol, a chafodd 19 eu hanfon drwy 3-bost neu lythyr. Caiff y prif bwyntiau o'r ymatebion eu crynhoi isod:

**Yr hyn roedd pobl yn ei gefnogi**

- Roedd y mwyafrif o bobl yn cefnogi defnyddio data mewn ffordd gytbwys sy'n gyson â'r Cwricwlwm newydd i Gymru.
- Roeddent  yn hoffi symud oddi wrth farnu ysgolion ar sail canlyniadau arholiadau yn unig ac yn hoffi'r pwyslais ar gynnydd a llesiant dysgwyr.

**Pryderon a gafodd eu codi**

- Dywedodd rhai ymatebwyr fod gwahaniaethau mawr o hyd ym mhrofiadau dysgwyr ledled Cymru, gyda thlodi a diffyg cefnogaeth yn dal i fod yn rhwystrau mawr.
- Dywedodd rhai bod peidio â chael profion swyddogol cyn 16 oed yn ei gwneud yn fwy anodd gwybod pa mor dda mae dysgwyr neu ysgolion yn ei wneud.
- Mae pobl yn bryderus y gallai ysgolion ddechrau anwybyddu pynciau creadigol fel Cerddoriaeth neu Arlunio a chanolbwyntio ar feysydd craidd yn unig, fel Mathemateg a Saesneg.

**Problemau gyda Data ac Adrodd**

- Gallai rhai o'r cynigion, fel cyfrif data dim ond os oes 50 neu fwy o ddysgwyr yn dilyn pwnc, fod yn annheg i ysgolion llai.
- Gallai'r swm o ddata i'w gasglu ac adrodd arno ychwanegu straen a rhoi llwyth gwaith ychwanegol i staff.
- Roedd rhai pobl yn awgrymu hefyd y gallai ysgolion gael eu barnu'n annheg ar sail y data hwn, hyd yn oed os nad dyma'r nod.

**Yr hyn y gofynnodd pobl amdano**

- Mae ar ysgolion angen cyfarwyddiadau cliriach ar sut i ddefnyddio'r data mewn ffyrdd teg a defnyddiol.
- Esboniadau haws eu deall – yn enwedig i bobl ifanc a rhieni fel bod yr wybodaeth yn gwneud synnwyr i bawb.

**Cefnogaeth i'r Gymraeg**

- Roedd llawer yn hoffi y gallai'r newidiadau helpu hybu'r Gymraeg mewn ysgolion.
- Ond roedden nhw'n dweud bod angen mwy o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ac adnoddau Cymraeg, ac y dylai fod pwyslais clir ar y Gymraeg yn y cynlluniau data.

# Cynnwys


Crynodeb ..... 3
**Geirfa ..... 5**
**Cyflwyniad ..... 6**
Cefndir yr Ymgynghoriad ..... 6
**Canfyddiadau ..... 7**
**Ymateb i Egwyddorion yr Ecosystem Wybodaeth – Cwestiynau 1 – 7 yr Ymgynghoriad ..... 9**
Gweithredu Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 (Rhan 1) – Cwestiynau 8 – 13 yr Ymgynghoriad ..... 12
Gweithredu Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 (Rhan 2) – Cwestiynau 14 – 17 yr Ymgynghoriad ..... 14
Effaith ar y Gymraeg - Cwestiynau 18-21 yr Ymgynghoriad ..... 16
Atodiadau ..... 18
Atodiad A – Sut y cafodd yr ymatebion eu dadansoddi ..... 18
Atodiad B – Cwestiynau'r Ymgynghoriad ..... 18


**Rhestr tablau**


Tabl 2 – Cwestiwn 1 ..... 10
Tabl 3 – Cwestiwn 2 ..... 10
Tabl 4 – Cwestiwn 3 ..... 10
Tabl 5 – Cwestiwn 4 ..... 10
Tabl 6 – Cwestiwn 8 ..... 12
Tabl 7 – Cwestiwn 9 ..... 13
Tabl 8 – Cwestiwn 10 ..... 13
Tabl 9 – Cwestiwn 13 ..... 13
Tabl 10 – Cwestiwn 14 ..... 14
Tabl 11 – Cwestiwn 15 ..... 14


**Rhestr ffigurau**


Ffigur 1 – Ymatebion i'r Ymgynghoriad a dderbyniwyd ledled Cymru ..... 8

## Geirfa

**Ymateb**
Yr hyn mae rhywun yn ei ddweud neu'n ei ysgrifennu pan ofynnir cwestiwn iddyn nhw.

**Ymatebydd**
Rhywun sy'n cymryd rhan mewn ymgynghoriad.

**Cynnig**
Syniad neu gynllun a gaiff ei awgrymu er mwyn i eraill feddwl amdano a rhoi ymateb iddo.

**Ymgynghoriad**
Proses lle gofynnir i bobl am eu barn ar gynnig cyn i benderfyniad terfynol gael ei wneud.

**Canfyddiadau**
Y prif bethau a gafodd eu dysgu ar ôl edrych ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Canllawiau**
Cyngor neu gyfarwyddiadau clir i helpu pobl i ddeall beth i'w wneud.

# Cyflwyniad

Rhwng misoedd Ionawr a Mawrth 2025, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r cyhoedd am eu barn ar rai cynigion ar ddull o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion i gefnogi dysgu a gwella a set o ddangosyddion i'w cynnwys mewn adroddiadau i adlewyrchu trefniadau dysgu i blant a phobl ifanc 14 i 16 oed yng Nghymru. Bu cwmni ymchwil o'r enw Miller Research yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth ganlynol:

- Crynodeb o gefndir yr ymgynghoriad
- Crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad.

## Cefndir yr Ymgynghoriad

Pan fo dysgwyr yn 14 i 16 oed, mae'n amser pwysig yn eu taith addysg gan eu bod yn dechrau sefyll arholiadau ac asesiadau allanol ac ennill cymwysterau a fydd yn cael effaith ar eu dyfodol. Wrth i'r Cwricwlwm newydd i Gymru gael ei roi ar waith, y flwyddyn academaidd 2025 i 2026 fydd y tro cyntaf y bydd dysgwyr o dan o cwricwlwm newydd yn cyrraedd Blwyddyn 10.

*Beth yw'r Cwricwlwm i Gymru?*

Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei gyflwyno'n raddol, ac erbyn mis Medi 2026, bydd pob dysgwr rhwng 3 a 16 oed mewn ysgolion awdurdodau lleol yng Nghymru yn ei ddilyn. Y nod yw sicrhau y bydd gan bob myfyriwr, erbyn yr adeg y byddan nhw'n gorffen ysgol yn 16 oed, yr wybodaeth, y sgiliau a'r wybodaeth mae arnyn nhw'u hangen i lwyddo. Mae'r cwricwlwm â'r nod hefyd o helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau a ddisgrifir yn ei bedwar diben, sy'n gosod y sylfaen iddyn nhw ffynnu fel dysgwyr gydol oes.

Am fwy o wybodaeth ar y Cwricwlwm i Gymru, cliciwch ar y ddolen ganlynol: Canllaw i'r Cwricwlwm newydd i Gymru i Bobl Ifanc

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau y mae angen i ysgolion eu dilyn. Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar ddysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru i helpu staff mewn ysgolion i gyflwyno'r cwricwlwm i ddysgwyr ym Mlynyddoedd 10 ac 11. Mae'r canllawiau'n amlinellu'r 'Hawl i Ddysgu 14 i 16', lle mae ysgolion yn darparu dysgu a phrofiadau eang a chytbwys i ddysgwyr. Mae'r rhain wedi eu cynllunio o amgylch 4 maes allweddol:

- Cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd
- Cymwysterau i annog ehangder
- Dysgu a phrofiadau ehangach ar draws y cwricwlwm
- Myfyrio ar ddysgu a chynnydd a help wrth gynllunio Ôl-16.

Mae'r cynigion rydym yn eu trafod yma ynghylch gwneud rhai newidiadau i'r ffordd y caiff gwybodaeth ei rannu i helpu unrhyw un sydd â diddordeb i ddeall beth sy'n digwydd mewn ysgolion i'w dysgwyr 14 i 16. Mae'n dangos bod Llywodraeth Cymru

yn bwriadu cyflwyno ffordd newydd o rannu'r wybodaeth hon gyda'r cyhoedd, ac i helpu ysgolion i ddefnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi nodau addysg i ddysgwyr 14 i 16 oed. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o'r safbwyntiau a rannodd pobl gyda Llywodraeth Cymru.

## Canfyddiadau


Gallai pobl a ymatebodd i'r ymghoriad rannu eu barn mewn amryw o wahanol ffyrdd. Cafodd dwy fersiwn wahanol o'r ymgynghoriad eu cynhyrchu, un yn arbennig i bobl sy'n gweithio mewn ysgolion neu gydag ysgolion a dysgwyr, ac un i bawb arall. Gallai pobl ymateb i'r ddwy fersiwn hyn naill ai trwy arolwg ar-lein, neu drwy e-bostio neu anfon llythyr yn uniongyrchol at Lywodraeth Cymru gyda'u hymatebion. Rydym wedi galw'r ymatebion hyn trwy e-bost neu lythyr yn 'ymatebion blwch post'.

Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol ymatebion a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.

**Tabl 1 – Ymatebion a Dderbyniwyd i'r Ymgynghoriad**

| Math o ymateb | Ymatebion a dderbyniwyd | Saesneg | Cymraeg | Dwyieithog |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghoriad cyhoeddus – cyffredinol | 1 | 1 | 0 | 0 |
| Ymgynghoriad cyhoeddus – system ysgolion | 34 | 29 | 5 | 0 |
| Ymatebion e-bost – cyflwyno ffurflen ymgynghori | 15 | 12 | 1 | 2 |
| Ymatebion e-bost – cyflwyno ffurflen e-bost | 4 | 4 | 0 | 0 |

Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad




Data Sources:
© OpenStreetMap
DataMapsWales
Welsh Government Consultation on Proposals for an approach to using data and information in the school system to support learning and improvement and the 14 to 16 Learner Entitlement Indicators Framework Responses

**Ffigur 1 – Ymatebion i'r Ymgynghoriad a dderbyniwyd ledled Cymru**

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gallai pobl ddweud wrth Lywodraeth Cymru lle yng Nghymru'r oedden nhw'n byw. Mae'r llun o'r map (gyferbyn) yn dangos o le yng Nghymru'r oedd pobl yn ymateb. Gallai pobl ddweud hefyd a oedd ganddyn nhw fuddiant busnes yng Nghymru. Ymatebodd 6 o bobl a dweud bod ganddyn nhw.

Roedd cryn dipyn o ymatebion a oedd yn cynnig barn ynghylch polisïau Llywodraeth Cymru nad oedd cwestiynau'n cael eu gofyn amdanynt, neu lle'r oedd rhywfaint o gamddealltwriaeth o'r cynigion roedd cwestiynau'n gofyn barn arnynt.

Ffynhonnell: Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Er mwyn ein helpu ni i ddeall yn well yr ymatebion a gafodd eu rhannu, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r ymatebion a oedd 'yng nghwmpas' yr ymgynghoriad hwn, ac sy'n arbennig o bwysig i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd.

Hefyd, parhaodd Llywodraeth Cymru i gyfarfod ag arweinwyr ysgolion i gasglu ymateb ychwanegol i'r cynigion a syniadau ar sut i'w gweithredu. Mae'r ymateb ychwanegol hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall barn pobl ac unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw gyda'r cynigion.

## Ymateb i Egwyddorion yr Ecosystem Wybodaeth – Cwestiynau 1 – 7 yr Ymgynghoriad

Un o'r pethau allweddol roedd yr ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio arnynt oedd pa mor addas a defnyddiol yw egwyddorion yr ecosystem wybodaeth (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel 'yr egwyddorion') yng nghyd-destun ehangach cefnogi dysgu 14 i 16.

*Felly, beth yw'r egwyddorion?*

Mae'r egwyddorion hyn yn dangos Llywodraeth Cymru yn symud oddi wrth ddefnyddio data mewn ffordd gystadleuol a beirniadol at ganolbwyntio ar helpu pob dysgwr i wneud cynnydd. Mae'r egwyddorion yn gyfres o werthoedd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r dull hwn wrth ddefnyddio data i gefnogi gwelliant dysgu. Mae 12 o egwyddorion i gyd, sydd wedi eu rhestru isod:

- Dull sy'n canolbwyntio ar y dysgwr
- Cymorth i'r gweithlu
- Cyfannol
- Materion cyd-destunol
- Effeithonrwydd a symlrwydd
- Hyblygrwydd
- Cyflwyniad hawdd ei ddeall
- Disgrifiadol, nid beirniadol
- Adrodd a rhannu
- Grymuso
- Chwilfrydedd a dealltwriaeth
- Cyhoeddi Meddylgar.

Am fwy o wybodaeth ar yr egwyddorion, cliciwch ar y ddolen ganlynol: Data a gwybodaeth i gefnogi dysgu a gwelliant: ar gyfer y cyhoedd

Gofynnwyd cyfanswm o 7 cwestiwn ynghylch yr egwyddorion ar y themâu canlynol:

- Pa mor dda mae'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru
- Sut mae'n cefnogi'r broses o werthuso a gwella mewn ysgolion
- Sut mae'n helpu i ddefnyddio data a gwybodaeth mewn ffordd gynaliadwy
- Sut mae'n helpu cynulleidfaoedd allanol, fel rhieni, i ddeall ysgolion
- A oes unrhyw egwyddorion ychwanegol sydd angen eu hychwanegu
- Sut y bydd yn effeithio ar y gweithlu, gan gynnwys llwyth gwaith
- Pa mor dda mae'n cefnogi dysgwyr unigol a diwallu eu hanghenion amrywiol
- Sut mae'n cefnogi nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

Roedd rhai cwestiynau'n gofyn i ba raddau roedd rhywun yn cytuno â rhywbeth. Mae hyn wedi'n galluogi ni i fesur ymatebion i'r cwestiynau hyn fel canran o'r ymatebion a

dderbyniwyd. Mae'r tablau canlynol yn dangos sut yr ymatebodd pobl i'r cwestiynau caeedig hyn o'r ymgynghoriad.

**Tabl 2 – Cwestiwn 1**

*Cwestiynau caeedig*

Cwestiwn caeedig o'r ymgynghoriad yw un lle mae pobl yn dewis o restr gosod o atebion yn lle ysgrifennu eu hatebion eu hunain.

Yn yr ymgynghoriad hwn, yr atebion y gallai pobl ddewis ohonynt oedd 'cytuno'n gryf', 'cytuno', 'ddim yn cytuno nac anghytuno', 'anghytuno' ac 'anghytuno'n gryf'. Cafodd pobl yr opsiwn hefyd o ychwanegu sylw i esbonio'u hateb.

Mae'r rhestr lawn o gwestiynau a ofynnwyd ar gael yn Atodiad B. Roedd cwestiynau 1-4, 8-10 and 13-15 yn gwestiynau caeedig. Roedd gweddill y cwestiynau a ofynnwyd yn gwestiynau agored, a oedd yn gadael i bobl esbonio eu barn mewn mwy o fanylder.

| Cytuno'n gryf / Cytuno | Niwtral | Anghytuno'n gryf / Anghytuno | Cyfanswm nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|
| 49% | 15% | 36% | 45 |

**Tabl 3 – Cwestiwn 2**

| Cytuno'n gryf / Cytuno | Niwtral | Anghytuno'n gryf / Anghytuno | Cyfanswm nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|
| 45% | 13% | 42% | 45 |

**Tabl 4 – Cwestiwn 3**

| Cytuno'n gryf / Cytuno | Niwtral | Anghytuno'n gryf / Anghytuno | Cyfanswm nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|
| 36% | 24% | 40% | 45 |

**Tabl 5 – Cwestiwn 4**

| Cytuno'n gryf / Cytuno | Niwtral | Anghytuno'n gryf / Anghytuno | Cyfanswm nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|
| 34% | 23% | 43% | 44 |

### Ymateb cadarnhaol i'r egwyddorion

Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr fod yr egwyddorion (yn enwedig 'materion cyd-destunol' a 'hyblygrwydd') yn cyd-fynd yn dda â'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n canolbwynio ar roi dysgwyr yn gyntaf. Roeddent yn hoffi bod yr egwyddorion yn symudd oddi wrth ganolbwyntio ar ganlyniadau profion a llwyddiant academaidd yn unig.

Roedd cymysgedd o safbwyntiau ynghylch a fyddai'r egwyddorion yn helpu i ddefnyddio gwybodaeth i gefnogi gwella ysgolion (gweler Tabl 3). Dywedodd y rheini a gytunai y bydd yr egwyddorion yn helpu i ddefnyddio data i olrhain cynnydd dysgwyr, ac nid canlyniadau yn unig. Roeddent yn teimlo y byddai'r dull yn osgoi rhoi

gormod o bwysau ar ysgolion ac yn rhoi disgwyliadau clir sy'n helpu athrawon ac ysgolion i gefnogi dysgwyr dros amser.

Roedd mwy o bobl yn anghytuno nag yn cytuno y byddai'r egwyddorion yn helpu rhieni a gofalwyr i ddeall ysgolion yn well (gweler Tabl 5). Ond dywedodd y rheini a gytunai fod yr egwyddorion yn hybu trefn agored ac yn rhoi golwg gliriach i rieni a gofalwyr sut mae ysgolion yn gwneud. Teimlent fod yr egwyddor 'materion cyd-destunol' yn helpu i esbonio perfformiad yn yr ysgol mewn ffordd decach.

Pan ofynnwyd a oedd yr egwyddorion yn cefnogi dysgwyr unigol, yn enwedig y rheini o gefndiroedd dan anfantais neu'n rhannu nodweddion gwarchodedig, roedd llawer yn cytuno. Roeddent yn dweud bod yr egwyddorion yn hyrwyddo tegwch a hygyrchedd ac yn helpu i ddiwallu anghenion amrywiol. Y farn oedd bod yr egwyddorion o fod yn 'hyblyg' a 'chanolbwyntio ar ddysgwyr' hefyd yn bwysig wrth ddiwallu anghenion dysgwyr sy'n newid yn barhaus.

**Ymateb negyddol i'r egwyddorion**

Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad oedd yn anghytuno yn crybwyll y risg o 'or-lwytho data', tra bod eraill yn teimlo y gallai'r egwyddorion ei gwneud yn fwy anodd i sicrhau bod dysgwyr yn dangos cynnydd a gwelliant gan na fyddai bellach gymaint o ganolbwyntio ar berfformiad.

Thema gyffredin arall oedd y byddai gweithredu'r egwyddorion yn arwain at rieni'n cymharu ysgolion, gan ddwysàu cystadleuaeth rhwng ysgolion a difrodi diwylliant cydweithredol. Roedd un ymatebydd o'r farn fod gormod o wybodaeth yn yr egwyddorion iddynt gael eu deall gan gynulleidfaoedd ehangach, tra dywedodd un arall na fydd dim ond arolygiadau ysgolion yn rhoi dealltwriaeth fras o berfformiad ysgol i gynulleidfaoedd allanol.

Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr y byddai'r egwyddorion yn cael effaith negyddol ar y gweithlu addysg a'u llwyth gwaith. Roedd hyn yn cynnwys pryderon y byddent yn arwain at gynnydd mewn llwyth gwaith, gyda rhai athrawon yn ei chael yn anodd addasu i'r dull newydd arfaethedig o gasglu data. Roedd eraill o'r farn hefyd y byddai darparu gwybodaeth mewn cyd-destun yn gymhleth ac yn feichus i adrodd arno.

**Ymateb niwtral**

Wrth ateb cwestiynau 1-7, roedd llawer o ymatebwyr wedi ateb 'ddim yn cytuno nac anghytuno'. Yn aml, roedd yr ymatebwyr hyn yn meddwl y byddai'r egwyddorion yn gweithio mewn theori ond nad oeddent yn sicr a fyddent yn gweithio'n ymarferol cystal ag y gobeithid.

**Egwyddorion ychwanegol a awgrymwyd**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn awgrymu ychwanegu egwyddorion ychwanegol. Roedd awgrymiadau'n cynnwys cryfhau moeseg a mesurau diogelu, gan gynnwys preifatrwydd a thryloywder data dysgwyr. Teimlai ymatebwyr hefyd y gallai fod angen am fwy o ddatblygiadau fel ystyried pwy sy'n gyfrifol ac ychwanegu mwy o gymorth i ddysgwyr Ôl-16 a rhieni.

**Ymatebion amherthnasol**

Roedd llawer o ymarebion nad oedd yn ateb cwestiynau 1-7 gyda gwybodaeth berthnasol. Felly, rydym wedi cynnwys yr ymatebion hyn mewn rhannau eraill o'r adroddiad, lle mae eu hatebion yn fwy addas.

## Gweithredu Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 (Rhan 1) – Cwestiynau 8 – 13 yr Ymgynghoriad

Mae'r adran hon yn amlinellu'r ymatebion i gwestiynau 8-13 yr ymgynghoriad, a oedd yn canolbwyntio ar Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'y Fframwaith 14 i 16').

*Beth yw'r Fframwaith 14 i 16?*

Fframwaith i gefnogi dysgu 14-16 o dan y Cwricwlwm i Gymru yw'r Fframwaith 14 i 16. Mae'r Fframwaith yn cyd-fynd â'r Hawl i Ddysgu 14-16, sy'n pwysleisio amrywiaeth helaeth o ddysgu a chyfleoedd i bobl ifanc. Gellir crynhoi pwyslais y Fframwaith 14 i 16 fel a ganlyn:

- **Disgwyliadau o ran cyhoeddi** – yr hyn a ddisgwylir gan ysgolion a phartneriaid o ran defnyddio a chyhoeddi data am ddysgwyr
- **Canolbwynio ar ddata dysgu 14-16 yn unig** – nid yr amrediad llawn y disgwylir ei gyhoeddi
- **Adrodd cynhwysfawr** – cynlluniau i adrodd ar setiau data mwy cynhwysfawr i helpu hunan-werthuso
- **Ffynonellau data ategol** – disgwyliadau i'r Fframwaith 14 i 16 gael ei ddefnyddio gan ysgolion ac Awdurdodau Lleol law yn llaw â data a ddelir yn lleol a gwybodaeth o gyd-destun eu dysgwyr a'u hysgol
- **Cynnwys dysgwyr AHY** – ystyried sut i sicrhau bod dysgwyr sy'n derbyn darpariaeth Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY / EOTAS) yn cael eu hystyried mewn trefniadau adrodd.

Gofynnwyd cyfanswm o 6 chwestiwn am y Fframwaith 14 i 16 ar y themâu canlynol:

- Pa mor dda mae'r Fframwaith 14 i 16 yn cyd-fynd â'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 ac yn cefnogi uchelgeisiau'r Cwricwlwm i Gymru
- A oes angen i'r Fframwaith 14 i 16 gynnwys dangosyddion ychwanegol
- A yw'r Fframwaith 14 i 16 yn helpu'r broses o gyfleu a deall dysgu 14 i 16
- Yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r Fframwaith 14 i 16
- Elfennau ychwanegol i'w hystyried
- Canllawiau penodol sydd eu hangen i gyd-fynd â'r Fframwaith 14 i 16.

Mae'r tablau canlynol yn dangos sut yr ymatebodd pobl i'r cwestiynau caeedig hyn.

**Tabl 6 – Cwestiwn 8**

| Cytuno'n gryf / Cytuno | Niwtral | Anghytuno'n gryf / Anghytuno | Cyfanswm nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|
| 44% | 18% | 38% | 45 |

**Tabl 7 – Cwestiwn 9**

| Dylai | Ansicr | Na ddylai | Cyfanswm nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|
| 42% | 23% | 35% | 43 |

**Tabl 8 – Cwestiwn 10**

| Cytuno'n gryf / Cytuno | Niwtral | Anghytuno'n gryf / Anghytuno | Cyfanswm nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|
| 30% | 26% | 44% | 43 |

**Tabl 9 – Cwestiwn 13**

| Bydd | Ansicr | Na fydd | Cyfanswm nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|
| 87% | 12% | 1% | 43 |

**Ymateb cadarnhaol i'r Fframwaith 14 i 16**

Roedd ymatebion wedi eu hollti'n weddol gyfartal ar y cwestiwn a yw'r Fframwaith 14 i 16 yn cyd-fynd â'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 a'r Cwricwlwm i Gymru, er bod ychydig mwy o bobl yn cytuno na'n anghytuno (gweler Tabl 6). Teimlai'r rhai a oedd o blaid fod y Fframwaith 14 i 16 yn gytbwys ac yn canolbwyntio ar y dysgwr. Roeddent yn ei weld fel symudiad cadarnhaol o'r hen system tuag at rywbeth a allai wella addysgu a dysgu, yn unol â nodau'r Cwricwlwm i Gymru.

Dywedodd amryw o ymatebwyr fod y symudiad at y Fframwaith 14 i 16 yn cynnig cyfleoedd newydd. Mantais allweddol a grybwyllwyd oedd y cyfle i gasglu data mwy ystyrlon ar sail cynnydd disgyblion, nid canlyniadau arholiadau yn unig. Gallai hyn helpu ysgolion i gyfathrebu'n well gyda rhieni, dysgwyr ac eraill ynghylch sut mae dysgwyr yn gwneud. Dywedodd eraill hefyd y gallai'r Fframwaith 14 i 16 helpu gydag adrodd mewn meysydd fel 'profiadau dysgu ehangach', llesiant a chynllunio Ôl-16.

**Ymateb negyddol i'r Fframwaith 14 i 16**

Roedd y rheini a oedd yn anghytuno ynghylch cydnawsedd y Fframwaith 14 i 16 yn codi amryw o bryderon. Teimlai rhai y gallai greu gormod o gystadleuaeth rhwng ysgolion. Roedd eraill yn pryderu y gallai pynciau â niferoedd bach o ddysgwyr gael eu gadael allan, gan leihau dewis dysgwyr, sy'n mynd yn erbyn nodau cynhwysol y Cwricwlwm i Gymru.

Pan ofynnwyd a yw'r Fframwaith 14 i 16 yn helpu gyda chyfleu a deall dysgu 14-16, roedd ymatebion yn gymysg, ond roedd mwy yn tueddu tuag at anghytuno (gweler Tabl 8). Teimlai rhai nad yw'r Fframwaith 14 i 16 yn rhoi ystyriaeth dda i wahanol bynciau a chyd-destunau dysgu a'i fod yn gwneud adrodd data yn rhy gymhleth. Pryder cyffredin oedd y gallai pwyslais cryf ar raddau terfynol arwain ysgolion at ganolbwyntio'n bennaf ar ddysgwyr ar y ffin C/D, yn hytrach na chefnogi pob dysgwyr yn gyfartal.

Roedd ymatebwyr yn rhestru amryw o heriau wrth symud at y Fframwaith 14 i 16. Roedd y rhain yn cynnwys pwysau amser, problemau gyda chyflogi a chadw staff, yr angen am hyfforddiant digonol. Pryder arall a godwyd oedd y gofyn am i o leiaf 50 o

ddisgyblion ddilyn pwnc er mwyn ei gynnwys mewn adrodd ar berfformiad. Gallai hwn annog ysgolion i beidio â chynnig pynciau gyda meintiau dosbarthiadau llai.

**Ymateb niwtral**
Dywedodd rhai ymatebwyr i'r ymgynghoriad ei bod yn anodd ffurfio barn glir ar y Fframwaith 14 i 16 cyn i fwy o wybodaeth a chanllawiau gael eu cyhoeddi.

**Elfennau / canllawiau ychwanegol a awgrymwyd**
Teimlai llawer o ymatebwyr a oedd yn awgrymu ychwanegu mwy o ddangosyddion at y Fframwaith 14 i 16 fod y fframwaith presennol yn rhy gyfyngedig. Roedd rhai yn awgrymu cynnwys mesur 'ychwanegu gwerth' i ddangos faint o gynnydd mae dysgwyr yn ei wneud dros amser, yn enwedig y rheini sy'n cychwyn o linell sylfaen is. Roedd eraill yn gofyn am fwy o ddata cefndir, fel gwybodaeth ddemograffig a dangosyddion sy'n ymwneud â llesiant dysgwyr.

Syniad arall oedd cymharu sut mae pob dysgwr yn perfformio mewn pynciau heb fod yn rhai craidd â'u perfformiad mewn pynciau craidd, a allai helpu ysgolion i ddeall cynnydd dysgu yn well. Roedd rhai hefyd yn awgrymu gostwng y trothwy 50 o ddysgwyr yn ymgeisio mewn arholiadau, gan ddweud y byddai'n rhoi darlun llawnach o berfformiad ysgol.

Pan ofynnwyd am gysoni systemau adrodd ysgolion â'r Fframwaith 14 i 16, roedd ymatebwyr yn aml yn crybwyll pwysigrwydd data a chyfathrebu clir mewn ffordd y gall pawb ddeall. Codwyd pryderon hefyd ynghylch a oes gan staff ddigon o amser a sgiliau i weithredu'r Fframwaith 14 i 16 yn effeithiol. Roedd amryw o bobl yn pwysleisio'r angen am gyfnod treialu addas i alluogi ysgolion i integreiddio'r fframwaith yn llawn.

Dywedodd ymatebwyr y byddai ysgolion yn elwa o ganllawiau mwy manwl ynghylch:

- Yr hyn a ddisgwylir gan ysgolion ac awdurdodau lleol
- Sut i gyhoeddi gwybodaeth mewn ffordd gyson
- Hyfforddiant i staff i'w helpu nhw i ddeall a defnyddio'r data
- Cyngor ar rannu data a chanllawiau gyda rhanddeiliaid allanol
- Cefnogi adolygiadau dysgu a chynllunio ar gyfer addysg Ôl-16.

## Gweithredu Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 (Rhan 2) – Cwestiynau 14 – 17 yr Ymgynghoriad

Mae'r tablau canlynol yn dangos sut yr ymatebodd pobl i gwestiynau caeedig perthnasol yr ymgynghoriad.

**Tabl 10 – Cwestiwn 14**

| Cytuno'n gryf / Cytuno | Niwtral | Anghytuno'n gryf / Anghytuno | Cyfanswm nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|
| 36% | 28% | 36% | 42 |

**Tabl 11 – Cwestiwn 15**

| Cytuno'n gryf / Cytuno | Niwtral | Anghytuno'n gryf / Anghytuno | Cyfanswm nifer yr ymatebion |
|---|---|---|---|
| 22% | 33% | 45% | 42 |

Law yn llaw ag ateb a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiynau hyn, rhoddodd rhai pobl wybodaeth ychwanegol i gefnogi eu hateb.

Codwyd y themâu canlynol mewn ymateb i'r grŵp hwn o gwestiynau:

- Cefnogi Cymraeg 2050
- Gallu i leihau tarfu ar y gweithlu a chanolbwyntio ar gynnydd dysgwyr
- Effaith ar y gweithlu / llwyth gwaith
- Gallu i gefnogi dysgwyr unigol a diwallu eu hanghenion amrywiol

### Cefnogi Cymraeg 2050

Roedd ymatebion yn gymysg ynghylch a yw'r Fframwaith 14 i 16 yn cefnogi nodau Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr, sydd â'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Dywedodd y rheini a roddodd ymateb cadarnhaol fod y Fframwaith 14 i 16 yn cynnwys dangosyddion defnyddiol ar gyfer dysgu Cymraeg, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Teimlai'r rheini a oedd yn anghytuno na fyddai'r Fframwaith 14 i 16 yn gwneud fawr o wahaniaeth i'r nod hwn, neu roeddent yn tynnu sylw at broblemau ehangach gyda pholisi ar y Gymraeg nad ydynt yn gysylltiedig â sut mae data yn cael ei gasglu.

### Gallu i leihau tarfu ar y gweithlu a chanolbwyntio ar gynnydd dysgwyr

Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'r Fframwaith 14 i 16 yn helpu i leihau tarfu ar staff ysgolion gan ei fod yn adeiladu ar ddata sy'n cael ei gasglu eisoes. Fodd bynnag, roedd eraill yn anghytuno ac yn dweud y gallai'r newidiadau achosi heriau, yn enwedig oherwydd y llawer o ofynion eraill mae ysgolion yn eu hwynebu. Dywedodd un person y byddai ar staff angen amser i ddysgu'r system newydd, a allai greu pwysau tymor byr.

Roedd pryderon hefyd am y rheol arfaethedig na ellir adrodd data ond ar bynciau sydd ag o leiaf 50 o ddysgwyr. Gallai hyn achosi gwaith ychwanegol i ysgolion sydd â meintiau dosbarthiadau bach ac ychwanegu at straen athrawon sydd ond ag ychydig o bynciau yn cyrraedd y trothwy.

### Effaith ar lwyth gwaith staff

Dywedodd rhai ymatebwyr y gallai'r Fframwaith 14 i 16 gynyddu llwyth gwaith, yn enwedig i athrawon Saesneg, Gwyddoniaeth a Chymraeg. Mae hyn oherwydd eu bod yn meddwl y gallai canlyniadau'r pynciau hyn dderbyn mwy o sylw. Roeddent yn bryderus hefyd am fwy o waith gweinyddol i arweinwyr ysgolion ac athrawon oherwydd adrodd ychwanegol. Teimlai llawer nad oes amser na chapasiti i ymgymryd â mwy o dasgau yn wyneb prinder parhaus aelodau staff.

Ar yr ochr gadarnhaol, dywedodd ambell un y gallai'r Fframwaith 14 i 16 leihau faint o ymdrech sydd ei angen i gyflwyno data yn allanol. Roeddent hefyd yn gweld

potensial i ddefnyddio'r data i annog gwell sgyrsiau ynghylch dysgu a gwella ysgolion. Fodd bynnag, roeddent yn pwysleisio bod rhaid i'r Fframwaith 14 i 16 gael ei ddefnyddio'n ofalus ac yn awgrymu y gallai awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth rhanbarthol helpu i reoli unrhyw lwyth gwaith ychwanegol.

**Diwallu anghenion dysgwyr unigol**
Teimlai rhai ymatebwyr y byddai dull hyblyg, seiliedig ar dystiolaeth, y Fframwaith 14 i 16 yn helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i ddeall a chefnogi amrywiaeth helaeth o anghenion dysgwyr. Gallai hyn beri bod addysg yn canolbwyntio mwy ar y dysgwr unigol.

Roedd eraill yn anghytuno, gan ddweud bod ysgolion eisoes yn gwneud hynny y gallent ac nad oedd ganddynt efallai ddigon o amser nac adnoddau i ddiwallu anghenion pob dysgwr. Rhoddodd ychydig ohonynt enghreifftiau o'r heriau penodol mae rhai dysgwyr yn eu wynebu nad ydynt yn cael sylw llawn drwy'r system addysg bresennol.

## Effaith ar y Gymraeg - Cwestiynau 18-21 yr Ymgynghoriad

Gofynnwyd tri chwestiwn er mwyn deall beth roedd pobl yn ei feddwl ynghylch sut y gallai'r cynigion effeithio ar y Gymraeg. Roedd ymatebion yn amrywio'n helaeth, ac roedd llawer o sylwadau'n canolbwyntio ar faterion cyffredinol yn ymwneud â'r Gymraeg yn hytrach na'r cynigion eu hunain.

### Barn gadarnhaol ar ddefnyddio data i gefnogi'r Gymraeg
Teimlai rhai y gallai'r ffordd y byddai data a gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio, fel y disgrifir yn yr ymgynghoriad, gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, yn enwedig os daw gyda chymorth penodol.

Roedden nhw'n dweud y gallai cyhoeddi data am gymwysterau Cymraeg annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg mewn ysgolion. Roedd eraill yn awgrymu y gallai olrhain pethau fel ymlyniad diwylliannol a chymryd rhan mewn gweithgareddau allgwricwlaidd Cymraeg fod yn ddefnyddiol. Teimlent y byddai hyn yn dangos sut y defnyddir y Gymraeg mewn bywyd bob dydd, nid mewn gwersi ffurfiol yn unig, ac y byddai'n cefnogi nodau hirdymor ar gyfer y Gymraeg.

### Pryderon am effeithiau negyddol posibl
Roedd rhai ymatebion yn amlygu heriau ehangach mae ysgolion yn eu hwynebu pan ddaw'n fater o hybu'r Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys prinder staff sy'n gallu siarad Cymraeg a'r angen am fwy o gymorth i helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy hyderus. Dywedodd un person fod Saesneg, yn aml, yn dal i gael ei siarad mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, sy'n ei gwneud yn fwy anodd creu gwell cydbwysedd rhwng y ddwy iaith.

I fynd i'r afael â'r pryderon hyn, gofynnodd rhai ymatebwyr i Lywodraeth Cymru esbonio pam fod angen casglu gwybodaeth benodol am y defnydd o'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn rhoi'r esboniad hwn fel rhan o'r dilyniant i'r ymgynghoriad.

### Effaith y Fframwaith 14 i 16 ar y Gymraeg

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad yw'r Fframwaith 14 i 16 presennol yn llwyr ddangos sut y caiff y Gymraeg ei defnyddio mewn bywyd bob dydd, yn enwedig mewn sefyllfaoedd anffurfiol lle mae'n fwy anodd mesur.

### Safbwyntiau niwtral

Fel y nodwyd mewn rhannau eraill o'r ymgynghoriad, cafodd y 'trothwy 50 ymgeisydd' ei grybwyll eto. Yn y cyd-destun hwn, dywedodd un awdurdod lleol y dylid cynnwys canlyniadau'n ymwneud â'r Gymraeg waeth faint o ddysgwyr sy'n cymryd y pwnc. Roeddent o'r farn y byddai hyn yn helpu ysgolion i olrhain cynnydd yn well a gweithredu lle bo angen i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd eraill yn rhannu pryderon tebyg, yn enwedig i ysgolion cyfrwng Cymraeg llai na oes ganddyn nhw ddigon o ddysgwyr efallai i gyrraedd y trothwy adrodd.

Dywedodd ymatebwyr hefyd nad oes digon o wybodaeth ar faint o ddysgwyr sy'n parhau i astudio pynciau eraill yn y Gymraeg – nid dim ond y Gymraeg ei hun. Roedden nhw'n teimlo y byddai'n ddefnyddio cael mwy o ddata ar faint o ddysgwyr sy'n dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn olaf, dywedodd ychydig o bobl nad oedden nhw'n meddwl y byddai'r cynigion yn cael unrhyw wir effaith ar y Gymraeg.

# Atodiadau

## Atodiad A – Sut y cafodd yr ymatebion eu dadansoddi

### Adolygu'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Unwaith y cafodd cynllun ymchwil a chronfa ddata ei chreu, cafodd pob ymateb i'r ymgynghoriad ei adolygu'n ofalus. Roedd o leiaf ddau ymchwilydd yn edrych ar yr atebion i bob cwestiwn er mwyn sicrhau bod y dadansoddiad yn gywir. Gweithiodd y tîm gyda'i gilydd i ganfod syniadau cyffredin a phwyntiau allweddol a ddaeth i'r amlwg mewn gwahanol ymatebion. Roedd hyn yn helpu i ddatblygu darlun clir a llawn o'r hyn roedd pobl yn ei feddwl.

Cafodd yr ymatebion eu dadansoddi yn yr iaith y cawsant eu hysgrifennu ynddi. Mae hyn yn golygu bod atebion a gafodd eu hysgrifennu yn y Gymraeg yn cael eu darllen a'u dadansoddi yn y Gymraeg. Roedd hyn yn helpu'r tîm i lwyr ddeall yr ystyr y tu ôl i'r hyn a gafodd ei ddweud. Os oedd rhywun yn ailadrodd yr un pwynt mewn gwahanol leoedd, dim ond unwaith roedd yn cael ei gyfrif.

### Offer a Ddefnyddiwyd ar gyfer Dadansoddi

Cafodd Microsoft Excel a'r offeryn mapio meddwl Miro eu defnyddio i helpu trefnu ac astudio'r ymatebion. Cafodd Excel ei ddefnyddio ar gyfer cwestiynau lle'r roedd pobl yn dewis o blith ospiynau a gafodd eu gosod. Defnyddiodd y tîm nodweddion fel Tablau Colynnu, rhan o Excel sy'n helpu i ddidoli a chrynhoi symiau mawr o ddata i ganfod patrymau a thueddiadau yn haws. Roeddent hefyd yn creu siartau bar i ddangos yn glir y patrymau a'r cysylltiadau yn yr ymatebion.

### Rheoli Ymatebion Dyblyg

Os oedd rhywun yn anfon yr un ymateb fwy nag unwaith, dim ond un copi a gafodd ei gynnwys er mwyn cadw'r canlyniadau'n deg a chytbwys.

### Gweithgareddau Ymgynghori Ychwanegol

I ategu'r ymgynghoriad, cafodd 12 o ddigwyddiadau eu cynnal gydag arweinwyr ysgolion ledled Cymru, a chafodd y rhai a gymerodd ran eu hannog i gwblhau'r ffurflen ymgynghori wedyn. Cafodd sylwadau ychwanegol o drafodaethau mewnol eu casglu hefyd. Cafodd y rhain eu dadansoddi ar wahân ond roeddent yn helpu i ychwanegu mwy o fanylder i'r prif ganfyddiadau.

## Atodiad B – Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn cyd-fynd ag ethos ac uchelgeisiau ein Cwricwlwm i Gymru?

| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 2 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn helpu i ddefnyddio data a gwybodaeth mewn modd cymesur er mwyn cefnogi'r broses o werthuso a gwella (dull sy'n sicrhau bod y dysgwr wrth wraidd y broses ac nad yw'n annog system berfformiadol a arweinir gan atebolrwydd)?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 3 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn helpu i ddefnyddio data a gwybodaeth mewn modd cynaliadwy er mwyn cefnogi'r broses o werthuso a gwella?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 4 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod egwyddorion yr ecosystem wybodaeth yn fodd i feithrin dealltwriaeth gytbwys a chyfannol o ysgolion a dysgu ymhlith cynulleidfaoedd allanol, fel rhieni a gofalwyr?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 5 –** A oes unrhyw egwyddorion neu agweddau eraill sy'n gysylltiedig â'r ecosystem wybodaeth arfaethedig y dylid eu hychwanegu?

**Cwestiwn 6 –** Beth fydd effaith egwyddorion yr ecosystem wybodaeth ar y gweithlu, gan gynnwys unrhyw effaith bosibl ar lwyth gwaith?

**Cwestiwn 7 –** Beth yw eich barn ar egwyddorion yr ecosystem wybodaeth o ran cefnogi dysgwyr unigol a diwallu eu hanghenion amrywiol, gan gynnwys y dysgwyr hynny o gefndiroedd dan anfantais a'r dysgwyr hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010)?

**Cwestiwn 8 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod Fframwaith Dangosyddion yr Hawl i Ddysgu 14 i 16 (y Fframwaith 14 i 16) yn cyd-fynd â'r Hawl i Ddysgu 14 i 16 gan gefnogi ein huchelgeisiau ehangach fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru ar yr un pryd?

| Cytuno'n gryf | ☐ | Cytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac anghytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Anghytuno'n gryf | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 9 –** A ddylai unrhyw ddangosyddion ychwanegol gael eu cynnwys yn y fframwaith hwn er mwyn cefnogi dysgu a gwelliant yn llawn? Rhowch fanylion.

| **Dylai** | ☐ | **Na ddylai** | ☐ | **Ansicr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 10 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod sefydlu'r Fframwaith 14 i 16 yn cynorthwyo'r broses o gyfleu cwricwla a dysgu 14 i 16 mewn modd cydlynol yng nghyd-destunau ysgolion eu hunain, gan alluogi dealltwriaeth ystyrlon a theg?

| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 11 –** Beth yw'r heriau a'r cyfleoedd wrth newid i ddefnyddio'r Fframwaith 14 i 16?

**Cwestiwn 12 –** Beth arall y bydd angen inni ei ystyried wrth ddechrau cysoni ein systemau adrodd sy'n darparu setiau data i ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn cefnogi prosesau hunanwerthuso gan ddefnyddio'r Fframwaith 14 i 16 hwn sydd ar gael i'r cyhoedd?

**Cwestiwn 13 –** A fydd angen canllawiau penodol ar yr agweddau ar y Fframwaith 14 i 16 lle y disgwylir i ysgolion ddarparu gwybodaeth? Rhowch fanylion.

| **Bydd** | ☐ | **Na fydd** | ☐ | **Ansicr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 14 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno bod y Fframwaith 14 i 16 yn helpu i ganolbwyntio ar nodau cyffredin Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr?

| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 15 –** I ba raddau rydych chi'n cytuno y bydd y Fframwaith 14 i 16 yn sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar y gweithlu ac yn ei alluogi i barhau i ganolbwyntio ar ddarparu ar gyfer dysgwyr a'u helpu i wneud cynnydd?

| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ☐ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

**Cwestiwn 16 –** Beth fydd effaith y Fframwaith 14 i 16 ar y gweithlu, gan gynnwys yr effaith bosibl ar lwyth gwaith?

**Cwestiwn 17 –** Beth yw eich barn ar effaith y Fframwaith 14 i 16 o ran cefnogi dysgwyr unigol a diwallu eu hanghenion amrywiol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd dan anfantais a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel y'u nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010)?

**Cwestiwn 18 –** Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac effeithiau egwyddorion yr ecosystem wybodaeth ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 19 –** Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r dull cyffredinol o ddefnyddio data a gwybodaeth yn y system ysgolion ac egwyddorion yr ecosystem wybodaeth er mwyn sicrhau: ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

**Cwestiwn 20 –** Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y Fframwaith 14 i 16 ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 21 –** Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r Fframwaith 14 i 16 er mwyn sicrhau: ei fod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu'n lliniaru unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

**Cwestiwn 22** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin yn benodol â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i'w hadrodd.